# Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

# 2023 – 2024

**Polisi Enghreifftiol Diogelu ac Amddiffyn Plant**
(i'w ddefnyddio mewn ysgolion)

**Enw'r Ysgol: Bod Alaw**
**Dyddiad y Polisi: 1.9.23**
**Dyddiad y'i Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:**
**Dyddiad Adolygiad Blynyddol: Medi 2024**
Yn ddibynnol ar newid deddfwriaethol bydd hyn yn cael ei adlewyrchu a'i ddiweddaru yn y polisi

---

**Personél Diogelu a Rhifau Cyswllt:**
**Enw: Dafydd Rhys Rhif Ffôn: 01492 530 420 Cyfeiriad e-bost:pennaeth@bodalaw.conwy.sch.uk**

**Llywodraethwr sy'n Gyfrifol am Ddiogelu ac Amddiffyn Plant: Mrs Heledd Cressey**

---

**Pennaeth: Mr Dafydd Rhys**

---

**Arweinydd Diogelu Dynodedig: Mr Dafydd Rhys**

---

**Dirprwy/Ail Ddirprwy Arweinydd Diogelu: Miss Sam Kendall**
**Trydydd Dirprwy: Mrs Elin V Hutchinson**

---

Arweinydd Diogelu Addysg: Sian Pineau, Rheolwr Gwasanaeth GCA, 01492 575036 sian.pineau@conwy.gov.uk

---

Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg: Ffion Hughes, Anwen Brown, Kathryn Hywel, Katie Haselgrove, Swyddog Gweinyddol GCA:- esws@conwy.gov.uk

---

Gwasanaethau Plant a Theuluoedd: Gweithiwr Cymdeithasol Dyletswydd, 01492 575111 (duty@conwy.gov.uk)
Uned Diogelu ac Adolygu ar gyfer pryderon am oedolion: 0300 456 1111
Rhif ffôn allan o oriau: 01492 515777

---

Bydd y polisi ar gael ar bapur mewn ffeil yn yr Ystafell Staff ac yn ddigidol ar y Y-drive i'r holl staff, a bydd yr holl staff yn arwyddo i nodi eu bod wedi ei ddarllen a deall ei gynnwys.

Mae pawb yn y Gwasanaethau Addysg yn rhannu'r nod o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

'Oherwydd eu cysylltiad dyddiol â phlant unigol yn ystod y tymor ysgol, mae athrawon a staff ysgol eraill mewn sefyllfa arbennig i weld arwyddion allanol o gam-drin, newid mewn ymddygiad neu fethu a datblygu.' *(Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004).*

*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 283/2022*

*'Dylai pawb sy'n gweithio mewn addysg rannu'r un nodau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel'. Rydym yn gwneud hyn trwy:*

- *greu a chadw lleoedd diogel i ddysgu*
- *nodi ble mae yna bryderon o ran lles, a chymryd camau cywir i fynd i'r afael â nhw*
- *Datblygu dealltwriaeth a gwytnwch plant a phobl ifanc trwy'r cwricwlwm i fod yn ymwybodol a deall sut i gadw'n ddiogel*

*Rydym yn cyrraedd y nodau hyn trwy:*

- *Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc*
- *Hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael neu anniogel*
- *Nodi achosion lle mae sail i bryderon am les plentyn a chychwyn neu gymryd camau priodol i'w cadw'n ddiogel.*
- *Cyfrannu at weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a chyfathrebu rhwng y rheiny sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd*
- *Hyrwyddo ac amddiffyn plant a phobl ifanc*

*Mae Llywodraeth Cymru yn diogelu plant a phobl ifanc trwy sicrhau eu bod yn dilyn gofynion:-*

- Deddf Plant 1989
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Plant 2004
- Adran 175 Deddf Addysg 2002
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 283/2022 Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 – mae'r rhain yn cynnwys 4 erthygl allweddol sy'n berthnasol i blant ac addysg (Erthygl 12/19/28/29)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- 'Canllawiau Dyletswydd Prevent' i Gymru a Lloegr - ar y ddyletswydd yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

## 1. PWRPAS POLISI DIOGELU/AMDDIFFYN PLANT

Mae polisi diogelu ysgol gyfan effeithiol yn un sy'n darparu cyfeiriad clir i staff ac eraill am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth ymdrin â materion diogelu AC amddiffyn plant. Mae polisi effeithiol hefyd yn gwneud yn eglur ymroddiad yr ysgol i ddatblygu ymarfer da a threfniadau cadarn. Mae hyn yn sicrhau y gellir trin pryderon diogelu/amddiffyn plant ac atgyfeiriadau / adroddiadau yn sensitif, yn broffesiynol ac mewn ffyrdd sy'n cefnogi anghenion y plentyn.

Mae ein hysgol yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y gall ei wneud i amddiffyn plant a chefnogi disgyblion yn yr ysgol. Mae tair prif elfen i'n polisi diogelu.

a) Atal (e.e. awyrgylch ysgol cadarnhaol, addysgu a bugeiliol, cefnogaeth i ddisgyblion).

b) Amddiffyn (trwy ddilyn trefniadau cytunedig, sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i ymateb yn briodol a sensitif i bryderon amddiffyn plant).

c) Cefnogaeth (i ddisgyblion a staff ysgol a phlant a all fod wedi'u cam-drin).

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol gan gynnwys Llywodraethwyr, Athrawon, Cymorthyddion Cefnogi Dysgu, goruchwylwyr amser cinio, gofalwyr, staff gweinyddol a gall unrhyw un o'r rhain fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datgeliad gan blentyn.

Yn ogystal â bod yn berthnasol i'r rhestr o bobl a nodir uchod, mae'n gosod rhwymedigaeth bersonol arnynt:-

> **RHAID i holl staff gofnodi a dweud ynghylch unrhyw faterion, pryderon neu amheuon amddiffyn plant wrth yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, cyn gynted ag y mae wedi'i nodi ac y mae'n ymarferol bosib ac mewn unrhyw achos, yn cadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 24 awr wrth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.**

## 3. YMRWYMIAD YR YSGOL

Rydym yn cydnabod y gall hunan barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a dulliau clir o gyfathrebu gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo fod o help i'n disgyblion gydag atal a chanfod cam drin. Felly bydd ein hysgol yn:

a) Sefydlu a chynnal ethos ble mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, ac y gwrandewir arnynt.

b) Sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn pryderu neu mewn anhawster.

c) Cynnwys yn y cwricwlwm weithgareddau a chyfleoedd ar gyfer ABGI, sy'n rhoi'r sgiliau sydd arnynt eu hangen i aros yn ddiogel rhag cam drin. Gellir cael gwybodaeth bellach am y gweithgareddau a'r cyfleoedd hyn gan gydlynwyr ABGI yr ysgol / cwricwlwm newydd Cymru.

d) Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm, a fydd yn helpu disgyblion i ddatblygu agwedd realistig tuag at ddyletswyddau bywyd fel oedolyn, yn arbennig ynghylch gofal plant a sgiliau rhianta, a chydberthnasau iach. Gellir cael gwybodaeth bellach am y deunydd hwn gan gydlynwyr ABGI yr ysgol.

e) Sicrhau ble bynnag bo'n bosibl bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda rhieni a chydweithwyr o asiantau eraill.

f) Sicrhau cydymffurfiad â'r cwricwlwm newydd a'r agenda ACE yng Nghymru trwy fynychu hyfforddiant priodol a sicrhau dull cydlynol wedi ei seilio ar dystiolaeth o ran sut rydym yn gweithio yn ein hysgolion trwy wneud y defnydd gorau o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi iechyd a lles ein disgyblion.

## 4. FFRAMWAITH

Nid yw ysgolion yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio gyda phlant. Mae datblygu trefniadau priodol a monitro ymarfer da yn gyfrifoldebau'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol.

## 5. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

**5.1. Diogelu Cyffredinol -** Mae gan bob oedolyn sy'n gweithio gyda neu ar ran plant gyfrifoldeb i amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae pobl allweddol o fewn ysgolion a Gwasanaethau Addysg sydd â chyfrifoldebau penodol o dan drefniadau amddiffyn plant. Mae'r cyfrifoldebau hyn hefyd wedi eu hamlinellu yn 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' (Cylchlythyr 283/2022) sydd ynghlwm. Mae gan y pennaeth neu'r dirprwy bennaeth neu'r Uwch Unigolyn Dynodedig (adnabuwyd yn flaenorol fel y Cydlynydd Amddiffyn Plant) yn ei absenoldeb y cyfrifoldeb hwn mewn ysgolion. Bydd y pennaeth yn sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o bwy yw'r uwch unigolyn dynodedig enwebedig a pha weithdrefnau i'w dilyn.

**5.2.** Swyddogaeth yr athro dynodedig yw sicrhau bod trefniadau diogelu lleol yn cael eu dilyn yn yr ysgol, a gwneud atgyfeiriadau perthnasol (a elwir bellach yn adroddiadau) i'r asiantau a enwyd yn unol â'r canllawiau a roddwyd. Hefyd, eu swyddogaeth yw sicrhau bod yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol yn ymwybodol o drefniadau mewnol yr ysgol, i gynghori staff a chynnig cefnogaeth i'r rhai sydd ei angen.

**5.3** Swyddogaeth y Pennaeth yw sicrhau bod polisïau diogelu mewn lle, bod digon o adnoddau ac amser i'r Uwch Unigolyn Dynodedig, a bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall beth i'w wneud a theimlo'n gyffyrddus i godi pryderon.

**5.4.** Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r llywodraethwr a enwyd sy'n gyfrifol am ddiogelu yw sicrhau bod gan yr ysgol bolisi effeithiol, y cydymffurfir â gweithdrefnau amddiffyn plant, a chefnogi'r ysgol yn yr agwedd hon. Mae'n bwysig nad yw llywodraethwyr yn cael gwybodaeth yn ymwneud â sefyllfaoedd amddiffyn plant penodol i sicrhau nad yw cyfrinachedd yn cael ei dorri.

Mae ein Corff Llywodraethu yn sicrhau fod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau diogelu mewn lle ac edrychir arnynt bob blwyddyn; eu bod ar gael i rieni a gofalwyr; bod fersiynau hawdd eu deall ar gael i ddisgyblion; bod camau mewn lle i ymdrin ag adroddiadau yn erbyn aelodau o staff a chefnogi staff newydd.

Mae'n rhaid i'n holl Lywodraethwyr gwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n cynnwys modiwlau ar ymarfer diogelu cyffredinol, caethwasiaeth fodern a thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Os yw eich Llywodraethwyr wedi cwblhau unrhyw un o'r canlynol, gellir cynnwys y rhain os oes angen;

- Canllawiau i lywodraethwyr ar ymateb i ddigwyddiadau rhannu lluniau noeth neu led-noeth
- Canllawiau i lywodraethwyr ar wybodaeth anghywir a rhagfarnllyd
- Canllawiau i lywodraethwyr ar ddeall rôl y rhyngrwyd mewn radicaleiddio ac eithafiaeth

**5.5.** Mae Arweinydd Diogelu Dynodedig y Gwasanaethau Addysg yn cynghori, cefnogi ac yn sicrhau y cynigir hyfforddiant priodol. Gallant hefyd gyfeirio at y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a chodi pryderon ynghylch gweithdrefnau ar ran yr ysgol.

Nid yw'r cyfrifoldebau strategol a gweithredol uchod yn rhestr hollgynhwysol i'r Pennaeth, yr Arweinydd Dynodedig na'r Corff Llywodraethu. Cyfeiriwch at y cylchlythyr 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' lle gellir cadw ati neu ychwanegu at y ddogfen.

5.6 **Atal Radicaleiddio** – Bydd ein lleoliadau addysg yn creu amgylchedd diogel ble gall plant ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafiaeth a

dysgu sut i herio'r syniadau hyn. Byddwn yn creu cyfleoedd o fewn y cwricwlwm i'w defnyddio i archwilio a herio'r testunau hyn a hybu gwerthoedd democratiaeth a pharch a goddefgarwch gwahanol ffydd a chredoau.

Roedd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar ysgolion i weithredu ei swyddogaethau i roi sylw priodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu mewn i derfysgaeth. Roedd Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Canllawiau Dyletswydd Prevent: i ysgolion yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys addysg ac rydym yn sicrhau bod holl staff ysgol yn deall *Prevent* a'u rôl i gydymffurfio â dyletswydd *Prevent*' - mae dogfen Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn rhoi **gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol am y testun hwn**.

5.7 **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) -** Mae bob aelod o staff yn ymwybodol o'r ddeddf hon, a weithredwyd ers Ebrill 2016. Mae'r ddeddf yn newid y ffordd mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio. Mae lles yn sylfaen i'r system gyfan, gan gysylltu gyda'r rôl y gall ymyrraeth gynnar ac atal eu chwarae wrth hyrwyddo lles. Mae diwygiadau diogelu o dan y ddeddf hon yn cynnwys fframwaith cyfreithiol cryfach ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu trefniadau diogelu sy'n bodoli ar gyfer plant trwy gyflwyno dyletswydd newydd i ddweud wrth yr awdurdod lleol ynghylch unrhyw blentyn yr amheuir sydd mewn risg o, neu'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, gan gynnwys oedolion mewn perygl.

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn hanfodol i ddeiliannau llwyddiannus wrth gefnogi teuluoedd, yn arbennig rhai sydd ag anghenion cymhleth. Mae cydweithrediad ar draws yr ysgol yn gwneud gwir wahaniaeth.

5.8 **Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**
Mae'r Ddeddf yn ddarn o ddeddfwriaeth bwysig iawn, yn torri tir newydd fel y ddeddf gyntaf o'i math yn y DU. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015 ac mae'n ceisio gwell ymateb ar y cyd gan y sector cyhoeddus, arweinyddiaeth gryfach a ffocws mwy cyson ar y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghymru a helpu dioddefwyr, ond yn bwysicach mae'n ceisio atal y cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar addysg; bydd angen i Awdurdodau Lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys yn yr ysgolion, er enghraifft trwy wersi ar berthnasau iach. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru i gyhoeddi dogfennau canllaw i helpu awdurdodau perthnasol i gyflawni amcanion y Ddeddf. Bydd y rhain yn cynnwys: y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, Gofyn a Gweithredu, Comisiynu, Cyflawnwyr Trosedd, Pobl Hŷn a Chydweithio Aml Asiantaeth.

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn pob un yng Nghymru, waeth beth yw eu rhyw neu dueddfryd rhywiol, mae hefyd yn ymdrin â thrais yn erbyn merch neu ddyn yn codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yn ymwneud â rhyw (gender) neu dueddfryd rhywiol. Nid oes cyfyngiad oed ar y Ddeddf felly mae plant sy'n gweld neu'n dioddef o drais neu gamdriniaeth fel hyn a phobl hŷn wedi eu cynnwys.

Mae gwybodaeth ychwanegol wedi ei chyflwyno i Gyrff Llywodraethu ar y pwnc VAWDASV o fewn canllaw Llywodraeth Cymru. Rhaid i ysgolion fabwysiadu polisi ar y pwnc ac mae polisi enghreifftiol o fewn y ddogfen hon.

5.9 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Yn unol â'r uchod, bydd ein hysgol yn sicrhau pwyslais ar atal, trwy ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o

leihau'r perygl yr amlygir i blant a'r anawsterau fydd yn dilyn yn eu bywydau. Cysylltir 'Profiadau Gwrthwynebus Plentyndod' (ACEs) gydag iechyd a lles diffygiol.

**6. Gweithdrefnau**

Byddwn yn dilyn y gweithdrefnau a nodwyd yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a'r Gweithdrefnau Amddiffyn Plant sydd o fewn y ddogfen hon.

Dylid cadw at y broses a nodir yng ngweithdrefnau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithdrefnau disgyblu a diswyddo.

Sicrhau fod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' 283/2022.

Rhoi sylw priodol i 'Ganllawiau Dyletswydd Prevent' i Gymru a Lloegr - y ddyletswydd yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Rhoi sylw priodol i unrhyw ddeddfwriaeth benodol newydd arall sy'n dod i rym.

- Hysbysir pob aelod o staff ynghylch trefniadau diogelu ag amddiffyn plant, trwy gynefino, briffio a hyfforddiant ymwybyddiaeth - ac mae staff i gael eu hysbysu'n rheolaidd o bwy yw'r sawl a enwebwyd a'i ddirprwy yn ei absenoldeb.

- Bydd bob aelod o staff yn cael cyfweliad wyneb yn wyneb wrth gynefino staff newydd, yn amlinellu trefniadau a chyfrifoldebau diogelu, a dylid cofnodi a ffeilio'r cyfweliadau hyn yn briodol.

- Hysbysir oedolion eraill sy'n ymweld â'r ysgol (e.e. athrawon peripatetig, staff cefnogi dysgu) o bolisi'r ysgol a'r sawl a enwyd os bydd angen mynegi pryderon.

- Bydd datganiad yn llyfryn yr ysgol yn hysbysu rhieni a gofalwyr am ddyletswyddau a chyfrifoldebau eu hysgol o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2019.

- Byddwn yn hysbysu'r tîm gwasanaeth cymdeithasol lleol os:-

    - Yw plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd un ai am gyfnod penodol neu yn barhaol ac
    - Os yw plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad am fwy na deuddydd o'r ysgol (neu un diwrnod ar ôl y penwythnos)
    - Pan fydd disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol newydd yn syth ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Diogelu.
    - Atgyfeirio unrhyw bryderon amddiffyn plant yn syth i'r adrannau priodol
    - Atgyfeirio unrhyw bryderon mewn perthynas ag oedolyn diamddiffyn (ee rhiant) yn syth

**7. Hyfforddiant a Chefnogaeth**

Bydd ein hysgol yn sicrhau bod y pennaeth; (sef yr uwch unigolyn dynodedig neu'r sawl a enwyd fel arfer), un aelod arall o staff enwebedig a'r llywodraethwr diogelu a enwebwyd yn mynychu'r hyfforddiant priodol i'w swyddogaeth yn flynyddol. Bydd yr holl staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth wrth gynefino (caiff hyn ei gofnodi a'i roi ar ffeil) i'r ysgol ac yn achlysurol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Bydd cefnogaeth ar gael i staff gan

y pennaeth i gychwyn, a chan aelodau eraill o dîm rheoli'r ysgol pan fo pryder neu gwestiynau ynghylch amddiffyn plant. Dylai staff yr ysgol wybod eu cyfrifoldebau personol, a gweithdrefnau lleol cytunedig, bod yn wyliadwrus o ran adnabod achosion o gam-drin a gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu eu bod yn cael eu cam-drin.

Mae'r holl staff rheng flaen yn cwblhau modiwlau e-ddysgu trwy hwb yn flynyddol, yn ôl cyfarwyddyd y Gwasanaethau Addysg a'r Uwch Unigolyn Dynodedig. Mae'r holl staff ategol hefyd yn cwblhau'r hyfforddiant hwn er mwyn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae pob aelod o staff wedi cyflawni modiwlau gorfodol o ran diogelu plant ac oedolion, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a chaethwasiaeth fodern.

Mae ein Corff Llywodraethol hefyd wedi derbyn hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu sylfaen gwybodaeth yn gyfredol a'u bod yn ymwybodol o'r trefniadau pe bai pryder am ddiogelu plentyn neu oedolyn.

Gallai staff sy'n gweithio yn yr ysgol, sydd wedi bod yn gysylltiedig â phlentyn sydd wedi cael niwed, neu'n ymddangos yn debygol o ddioddef niwed, deimlo bod y sefyllfa yn peri gofid iddynt a/neu yn anodd yn broffesiynol ac yn foesol. Bydd staff yn cael eu cefnogi gan eu goruchwyliwr a allai ystyried cefnogaeth bellach gan unigolyn dynodedig yr ysgol, Arweinydd Diogelu'r Awdurdod Lleol a/neu Iechyd Galwedigaethol ac AD.

**8. Cyfrinachedd Proffesiynol**

Mae cyfrinachedd yn fater sydd angen ei drafod a'i ddeall yn llawn gan bawb sy'n gweithio gyda phlant, yn arbennig yng nghyd-destun amddiffyn plant. Unig bwrpas cyfrinachedd yn y cyd-destun hwn yw bod o fantais i'r plentyn. Ni ddylai aelod o staff byth warantu cyfrinachedd i ddisgybl na chytuno gyda'r disgybl i'w gadw'n gyfrinachol, oherwydd pan fo pryder amddiffyn plentyn mae'n rhaid dweud wrth y sawl a enwyd ac efallai y bydd angen ymchwilio pellach gan yr awdurdodau priodol. Byddai hyn yn arwain at dorri ymddiriedaeth y disgybl mewn oedolion ac efallai peryglu eu lles a'u diogelwch. Pan fo pryder, bydd y sawl a enwyd (y pennaeth neu'r uwch unigolyn dynodedig yn ein hysgol) yn dilyn y drefn a'r canllawiau a gytunwyd yn lleol. Hysbysir staff ar sail 'angen gwybod' yn unig o agweddau perthnasol amddiffyn plentyn. Rhaid i aelod o staff gadw unrhyw wybodaeth mae'n ei gael yn gyfrinachol iddynt eu hunain.

**9. Honiadau yn erbyn Aelodau o Staff**

Ble mae pryder yn gysylltiedig â honiadau neu gyhuddiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff, nodir y broses yn y gweithdrefnau disgyblu a diswyddo i staff ysgolion: gweler canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff llywodraethu (Cadw Disgyblion yn Ddiogel) a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Adran 5.

Mae'r holl staff yn deall y byddent yn dilyn y gweithdrefnau hyn pe byddai honiad yn cael ei wneud yn erbyn unrhyw aelod o staff ac yn achos y Pennaeth, byddent yn hysbysu'r Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Ddiogelu / Cadeirydd y Llywodraethwyr.

**9. Rhannu Pryderon:**

Dylid dilyn polisi rhannu pryderon yr ysgol.
**Llywodraethwr rhannu pryderon**: os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu dilyn polisi rhannu pryderon yr ysgol ond yn parhau i fod yn bryderus rhaid i chi drafod eich pryderon gyda chorff priodol. Yn y sefyllfa hon gallwch gysylltu â'r Awdurdod Lleol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol neu linell gymorth NSPCC.

**10. Cofnodion a Monitro**

Mae cofnodion da yn hanfodol i ymarfer diogelu/amddiffyn plant da. Mae ein hysgol yn glir ynghylch yr angen i gofnodi unrhyw bryder ynghylch plentyn/plant, digwyddiad neu ddatgeliad o fewn yr ysgol, statws y cofnodion a phryd ddylid trosglwyddo'r cofnodion hyn i asiantau eraill. Gwneir cofnod ysgrifenedig o bryder a godwyd a'r camau a gymerwyd. Cedwir y cofnodion hyn mewn modd cyfrinachol a diogel. Yn ein hysgol rydym yn defnyddio taflen 'Amddiffyn Plant – Pryderon neu Datguddiad Ysgol Bod Alaw' cyn ei drosglwyddo i SIMS.

**11. Recriwtio Mwy Diogel**

Mae'r ysgol yn ymroddedig i egwyddorion recriwtio mwy diogel ac, fel rhan o hynny, mae'n mabwysiadu gweithdrefn recriwtio sy'n helpu i atal, gwrthod a/neu ganfod pobl a allai fod yn berygl i blant. Mae prosesau recriwtio diogel yn cael eu dilyn fel y nodir yng Nghanllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru.

Dylai pob aelod perthnasol o staff a llywodraethwyr sy'n cymryd rhan mewn recriwtio ddilyn hyfforddiant diogelu diogel fel ymarfer da. Gall hyn fod ar gael trwy hyfforddiant corfforaethol, fodd bynnag dylid cyfeirio at restr wirio recriwtio mwy diogel, fel y lleiafswm. Dylai'r ysgol sicrhau bod o leiaf un unigolyn ar unrhyw banel penodi wedi cael yr hyfforddiant uchod, neu â gwybodaeth dda o ymarfer recriwtio diogel.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod prosesau recriwtio diogel yn gadarn o ran GDG, asesiadau diogelu, asesiadau risg, deunydd cyhoeddusrwydd, gwefan recriwtio, hysbysebion, gwybodaeth ymgeisydd, hyfforddiant diogelu ac ati. Bydd yr ysgol yn dilyn Gweithdrefnau Recriwtio Awdurdod Lleol a Chanllawiau Recriwtio Diogel Llywodraeth Cymru.

Bydd gwiriadau GDG mwy cyfredol i reoli risg a byddant fel arfer yn digwydd yn unol â gofyniad Gwasanaeth corff llywodraethu / corff proffesiynol. Yn ein hysgol ni bydd hyn yn digwydd bob ......

**12. Ysgol Ddiogel, Staff Diogel**

- Efallai y bydd llawer o'n disgyblion yn cael anhawster siarad am faterion sensitif ac nid oes gan rai yr eirfa ar gyfer hyn. Rhaid i/bydd staff yn ymwybodol o hoff ddull y disgybl o gyfathrebu a'u hanghenion arbennig unigol os ydym i ddarparu amgylchedd diogel i'n disgyblion. Wrth ymwneud â disgyblion rhaid/bydd yr holl staff fod yn ymwybodol o'r potensial i gam ddehongli ymdrechion ein disgyblion i fynegi pryder neu fater amddiffyn plant.

- Dylai staff sy'n gweithio mewn sefyllfa un i un gyda disgybl sicrhau eu bod wedi gosod eu hunain mewn modd fel eu bod yn weladwy a chlywadwy i staff eraill ble gallai fod yna'r posibilrwydd o gam ddehongli eu rhyngweithio â'r disgybl.

- Hysbysir staff am gwnsela a/neu roi cyngor i blant/pobl ifanc ynghylch materion rhywiol trwy bolisi'r ysgol ar addysg rhyw a pherthynas.

- Mae staff yr ysgol yn gyfarwydd ag Arwyddion o Gam-drin (Atodiad 1)

- Mae staff yr ysgol yn ymwybodol o ddeddfwriaeth megis Protocol Cymru Gyfan ar Reoli Pobl Ifanc sy'n Cyflawni Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Canllawiau Diogelu rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan Lywodraeth Cymru, a Llywodraeth EM - Canllawiau Dyletswydd Prevent: i Gymru a Lloegr (canllawiau ar gyfer awdurdodau penodol yng Nghymru a Lloegr ar y ddyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

- Mae staff ysgol yn gweithio'n galed i gynnal partneriaeth effeithiol â rhieni a gofalwyr, a dylent fod yn ymwybodol y gall y polisi hwn effeithio ar eu perthynas weithio. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal ein hymroddiad i weithio gyda rhieni a gofalwyr er lles pob disgybl. Bydd ymdriniaeth sensitif a chefnogol o'r materion hyn, wrth gadarnhau mai'r disgybl sy'n ein gofal yw'r flaenoriaeth gyntaf, yn helpu i gynnal y berthynas weithio hon.

- Cyn cychwyn gweithio mae angen i bob aelod o staff gwblhau gwiriad Datgelu a Gwahardd, sydd wedi cymryd lle archwiliad cofnodion yr heddlu ac archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, cyn cychwyn yn eu swydd, ac arwyddo datganiad yn ystod y broses gwneud cais ynghylch dedfrydau'n ymwneud â niweidio plant. Bydd staff sy'n ceisio'n fwriadol i gam arwain yr ysgol ynghylch hyn yn cael eu diswyddo.

- Pan fo aelod o staff yn cael eu cyhuddo o gam drin, bydd hyn yn cael ei ymchwilio'n llawn o dan drefn disgyblu'r ysgol ac Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Dylid ceisio cyngor hefyd gan uwch swyddog Gwasanaethau Addysg ac Arweinydd Diogelu Dynodedig Addysg Conwy. Dylai unrhyw amheuaeth neu honiad o gam-drin gael ei gyflwyno i Wasanaeth Diogelu Plant a Theuluoedd neu'r Heddlu.

## 13. Cod Ymddygiad Staff

Disgwylir i holl staff (rhai a delir a rhai gwirfoddol) ddilyn y cod ymddygiad o ran eu cysylltiad gyda disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r Safonau Addysgu yn disgwyl i bob athro ddiogelu lles plant a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn addysgu fel rhan o'u dyletswyddau proffesiynol. Bydd plant yn cael eu trin gyda pharch ac urddas ac ni chaniateir unrhyw gosbau, cadw, ataliaeth, sancsiynau neu wobrau y tu hwnt i'r rhai a nodir ym Mholisi Rheoli Ymddygiad yr ysgol. Tra byddai yn afrealistig ac yn annymunol i wahardd holl gyswllt corfforol rhwng oedolion a phlant, disgwylir i staff gymryd gofal ac osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa ble all eu gweithredoedd fod yn agored i feirniadaeth neu gamddehongliad. Pan fo achosion yn codi a allai gael eu camddehongli, neu mewn amgylchiadau eithriadol pan fo'n angenrheidiol atal disgybl yn gorfforol er eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch eraill bydd hyn yn cael ei gofnodi yn briodol a dywedir wrth y Pennaeth a'r Rhieni yn syth.

Er eu diogelwch eu hunain, dylai staff gymryd gofal mewn sefyllfa pan fyddant ar eu pennau eu hunain gyda disgyblion. Heblaw mewn sefyllfaoedd addysgu ffurfiol; er enghraifft yn ystod gwersi offeryn cerdd, dylid gadael y drws ar agor ble mae'r gwersi 1:1, cwnsela neu gyfarfod yn digwydd. Pan na fo hyn yn ymarferol oherwydd yr angen i gadw cyfrinachedd, gofynnir i aelod arall o staff fod yn bresennol gerllaw a chedwir cofnod o amgylchiadau'r cyfarfod. Bydd gan bob ystafell a ddefnyddir ar gyfer addysgu neu gwnsela disgyblion baneli gwydr clir a dirwystr yn y drysau.

Dylai staff ysgol hefyd fod yn wyliadwrus o'r risgiau posib a allai godi o gyswllt cymdeithasol gyda disgyblion y tu hwnt i'r ysgol. Dylid ond ymweld â'r disgyblion a'u teuluoedd yn y cartref os yw'r Pennaeth yn gwybod ac wedi cymeradwyo. Bydd unrhyw achos o gyswllt nas

cynlluniwyd neu amheuaeth fod y disgybl 'wedi gwirioni' neu yn 'ffansio' aelod o staff yn cael eu hadrodd wrth y Pennaeth yn syth.

Bydd staff ond yn defnyddio adnoddau a systemau technoleg digidol yr ysgol at bwrpas proffesiynol neu at ddefnydd a nodir yn 'rhesymol' gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu. Bydd staff ond yn defnyddio'r e-bost ysgol a gymeradwywyd, platfform dysgu'r ysgol neu systemau cyfathrebu eraill gyda disgyblion neu rieni/gofalwyr a gymeradwywyd gan yr ysgol a dim ond cyfathrebu gyda hwy am fusnes ysgol priodol ac ni fyddant yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol e.e. cyfeiriad e-bost neu rifau ffôn. Ni fydd staff yn defnyddio camerâu personol (digidol neu fel arall) na chamerâu ffôn i gymryd a throsglwyddo delweddau o ddisgyblion neu staff heb ganiatâd ac ni fyddant yn storio delweddau gartref.

Dylai staff fod yn ymwybodol o weithdrefnau rhannu pryderon yr ysgol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru a rhannu unrhyw ddatgeliad neu bryder sy'n ymwneud ag aelod o staff yn syth gyda'r Pennaeth neu un o'r Arweinwyr Diogelu Dynodedig ac os yw'r mater yn ymwneud â'r Pennaeth, yna dylid cysylltu gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr.

**14. Trefniadau estynedig yn yr ysgol ac oddi ar y safle:**

Mae pob gweithgaredd estynedig ac oddi ar y safle yn destun asesiad risg i fodloni gofynion iechyd a diogelwch a diogelu. Pan fo gweithgareddau ysgol estynedig yn cael eu darparu a'u rheoli gan yr ysgol, mae ein polisi a'n gweithdrefnau diogelu/amddiffyn plant ein hunain yn berthnasol. Os yw sefydliadau eraill yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau ar ein safle byddwn yn sicrhau bod ganddynt weithdrefnau priodol mewn lle, gan gynnwys gweithdrefnau recriwtio mwy diogel.

Pan fydd ein disgyblion yn mynychu gweithgareddau oddi ar y safle, gan gynnwys ymweliadau dydd a phreswyl, byddwn yn cadarnhau bod trefniadau diogelu/amddiffyn plant effeithiol mewn lle.

**15. Gwirfoddolwyr**

Diffinnir gwirfoddolwr fel rhywun sy'n gwneud gweithgaredd sy'n golygu treulio amser, yn ddi-dâl (heblaw ar gyfer teithio a chostau parod eraill a gymeradwywyd) yn gwneud rhywbeth sy'n anelu at fod o fudd i rywun (unigolion neu grwpiau).

Bydd trefniadau gwirio rhesymol yn berthnasol i unrhyw riant neu unigolyn/sefydliad arall a ddefnyddir gan yr ysgol i weithio'n wirfoddol gyda disgyblion. Rhaid i wirfoddolwyr ddilyn yr un cod ymarfer a'r staff ysgol a delir.

Bydd pawb sydd yn gweithio o fewn sefydliadau addysgol, ac ar bob lefel a statws cyflogedig yn ymwybodol o'r prosesau sydd yn cefnogi diogelu. Dylid rhannu ac esbonio pob polisi a gweithdrefn fel rhan o'r broses gynefino. Mae hyn yn cynnwys y polisi diogelu ac amddiffyn plant a'r polisi ymddygiad staff.  Yn ystod y broses gynefino dylid rhoi gwybod i wirfoddolwyr beth yw rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig a sut i godi pryderon gyda nhw yn ogystal â'r broses i'w dilyn pe bai cyhuddiad yn cael ei wneud yn eu herbyn. Dylai pob gwirfoddolwr dderbyn hyfforddiant Amddiffyn Plant yn ôl yr angen.

**16. Darparwyr Allanol**

Os yw'r ysgol y galw ar wasanaethau darparwyr allanol un ai o fewn yr ysgol neu'n anfon disgyblion oddi ar y safle. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl drefniadau diogelu yn gadarn e.e. eu bod wedi cadarnhau bod gan y darparwyr staff sydd â gwiriad DBS cyfredol, sydd wedi dilyn hyfforddiant amddiffyn plant, bod staff yn gwybod pwy i gysylltu â hwy os gwneir honiad, y cydymffurfir â holl ofynion iechyd a diogelwch ynghyd â sicrhau y dilynir unrhyw asesiadau risg a nodwyd.

## 17. Mynychu Cynhadledd Amddiffyn Plant

Bydd y pennaeth (neu'r unigolyn(ion) dynodedig) yn mynychu cynhadledd amddiffyn plant a gynhelir ynghylch disgybl. Gall staff perthnasol eraill fynd gyda hwy (e.e. athro bugeiliol y disgybl) os yw hyn o fantais i'r disgybl. Bydd staff sy'n mynychu'r fath gynadleddau yn cael cynnig cefnogaeth a chwnsela priodol pe baent yn dymuno.

## 18. Cefnogi Disgyblion mewn risg neu rai sydd ag anghenion ychwanegol

Mae ein hysgol yn cydnabod y gall plant sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dystion i drais ei chael yn anodd datblygu ymdeimlad o hunanwerth a gweld y byd mewn modd cadarnhaol. Efallai mai'r ysgol hon yw'r unig amgylchedd sefydlog, diogel ac elfen ragweladwy ym mywydau disgyblion mewn risg. Tra maent yn yr ysgol gall eu hymddygiad barhau i fod yn heriol ac yn herfeiddiol. Mae'n cael ei gydnabod y gall rhai plant sydd cael eu cam-drin droi at gam-drin eraill. Mae hyn yn gofyn am ddull ystyriol, sensitif fel bod y plentyn yn cael y cymorth a'r gefnogaeth briodol.

Bydd yr ysgol hon yn ymdrechu i gefnogi disgyblion trwy'r:

a) Cwricwlwm i annog hunan-barch ac hunan-ysgogiad.

b) Ethos ysgol sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel sy'n rhoi ymdeimlad o barch a gwerth i bob disgybl ac oedolyn.

c) Gweithredu polisïau rheoli ymddygiad ysgol (yn angenrheidiol dan God Ymarfer, Deddf Addysg 2002 – yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd).

d) Dull cyson sy'n cydnabod ac yn gwahanu achos yr ymddygiad y mae'r plentyn yn ei arddangos. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gefnogi o fewn yr ysgol.

e) Cyswllt rheolaidd â phobl broffesiynol ac asiantau eraill sy'n cefnogi disgyblion a'u teuluoedd.

f) Ymroddiad i ddatblygu perthynas gynhyrchiol, gefnogol gyda rhieni, pan fo hynny'n llesol i'r plentyn.

g) Datblygu a chefnogi staff ymatebol a gwybodus, wedi'u hyfforddi i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd amddiffyn plant.

Dylid ystyried y polisi hwn ynghyd â pholisïau cysylltiedig eraill yr ysgol. Dyma'r polisi ar gyfer addysgu ABCh, y polisi ar addysg rhyw a pherthynas, y polisi/canllawiau ar breifatrwydd ac urddas disgyblion, y polisi ar reoli ymddygiad disgyblion, y polisi iechyd a diogelwch, y polisi ar alcohol a cham-drin sylweddau, y polisi gwrthfwlio a'r polisi/canllawiau bwyd a ffitrwydd, a'r ddyletswydd ar ysgolion i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Cydnabyddwn, yn ystadegol, bod plant gydag anawsterau ymddygiad ag anabledd mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin. Bydd angen i staff sy'n gweithio, mewn unrhyw fodd, gyda phlant ag anableddau dwys neu luosog, nam synhwyraidd a/neu emosiynol a phroblemau ymddygiad fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin. Rhaid pwysleisio hefyd y gall plant mewn cartref ble mae trais domestig, cam-drin cyffuriau neu alcohol hefyd fod yn agored i niwed ac angen cefnogaeth neu amddiffyniad.

**Plentyn sydd Angen Cynllun Gofal a Chefnogaeth**

Mae'r gyfraith o ran asesu anghenion plant yng Nghymru bellach yn Rhannau 3 a 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. **Adrannau 37-39 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015; Cod Canllawiau Rhan 4**

Bydd plentyn yn gymwys i gael gwasanaeth os:

1. yw'r angen yn codi o amgylchiadau megis eu hoedran neu eu hiechyd
2. ac mae'n ymwneud â'u deilliannau lles personol
3. a ni ellir ei fodloni gan eu rhieni, y teulu ehangach na'r gwasanaethau cymunedol
4. a gellir ond ei fodloni gan eu hawdurdod lleol trwy drefnu neu ddarparu'r gwasanaeth neu wneud taliadau uniongyrchol.

Os yw'r plentyn yn gymwys ar gyfer gwasanaeth, cytunir ar **Gynllun Gofal a Chefnogaeth**.

Fel ysgol byddwn yn cyfeirio fel bo'n briodol at y Gwasanaethau Plant os adnabyddir y byddai plentyn yn elwa o gynllun cefnogaeth Plentyn mewn Angen gyda chaniatâd y rhiant/gofalwr.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant - gweler 'Canllaw Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol'**

**https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p10.html**

Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yw pan fo plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol ar gyfer arian, pŵer neu statws. Gall plant neu bobl ifanc gael eu twyllo i gredu eu bod mewn perthynas gariadus, gydsyniol. Gallant gael eu gwahodd i bartïon a chael cyffuriau ac alcohol. Gallant hefyd gael eu paratoi at bwrpas rhyw ar-lein. Rhai dangosyddion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yw: mynd ar goll am gyfnodau neu ddod adref yn hwyr yn rheolaidd, colli'r ysgol neu addysg yn rheolaidd neu beidio â chymryd rhan mewn addysg, ymddangos gydag anrhegion anesboniadwy neu bethau newydd, cymysgu gyda phobl ifanc eraill sy'n ymwneud a cham-fanteisio, cael cariadon hŷn, dioddef o heintiau a drosglwyddwyd yn rhywiol, newid mewn hwyliau neu newidiadau mewn lles emosiynol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a dangos ymddygiad rhywioledig amhriodol.

Nid yw plentyn o dan 13 oed yn alluog yn gyfreithiol o gydsynio i ryw (mae'n dreisio statudol) nac unrhyw fath arall o gyffwrdd rhywiol. Mae gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn o dan 16 oed hefyd yn drosedd. Mae'n drosedd i unigolyn gael perthynas rywiol gyda rhywun 16 neu 17 oed os yw'r unigolyn hwnnw mewn safle o ymddiriedaeth neu awdurdod mewn perthynas â'r unigolyn ifanc. Mae rhyw heb gydsynio yn drais rhywiol beth bynnag fo oedran y dioddefwr. Os yw'r dioddefwr yn analluog trwy ddiod neu gyffuriau, neu os yw'r dioddefwr a'i d/theulu wedi dioddef trais, neu fygythiad o drais, yna ni ellir ystyried bod ganddynt wir gydsyniad, ac felly efallai bod troseddau wedi eu cyflawni. Felly gall cam-fanteisio'n rhywiol ar blentyn fod yn fater amddiffyn plant i holl blant o dan 18 oed.

Pan sylweddolwn fod plentyn o dan 13 oed yn, neu o bosib yn cael rhyw, pu'n a ydynt yn ddisgybl yn yr ysgol hon ai peidio, atgyfeirir y mater yn syth at y Gwasanaethau Plant. Yn

achos unigolyn ifanc rhwng 13 ac 16 oed, cynhelir asesiad risg unigol yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Mae cysylltiad cryf rhwng Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a materion diogelu eraill megis mynd ar goll a masnachu mewn plant.  Gall mynd ar goll o'r cartref neu o ofal roi plant mewn perygl o gam-fanteisio'n rhywiol neu gall fod yn arwydd bod cam-fanteisio'n digwydd eisoes. Mae masnachu mewn plant yn golygu symud plentyn o un lle i'r llall er mwyn cam-fanteisio arnynt. Canllawiau Cymru Gyfan - Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal a Chanllawiau Cymru Gyfan - Diogelu Plant rhag Masnachu

https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p9.html

https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p3.html

- **'Camfanteisio Troseddol ar Blant' (CTaB) -** Gall Camfanteisio Rhywiol ddigwydd i blentyn fel rhan o Gamfanteisio Troseddol ar Blant neu gallent fod yn darged ar gyfer cam-fanteisio troseddol gan eu bod eisoes yn destun Camfanteisio Rhywiol ac i'r gwrthwyneb. Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn digwydd pan fo plant a phobl ifanc yn cael eu dylanwadu a'u cymell i droseddu.  Gall hyn gynnwys defnyddio pobl ifanc a phlant ar gyfer 'Llinellau Sirol' i drosglwyddo cyffuriau, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn plant.
-
- Mae'n bwysig ein bod yn ymwybodol o gam-fanteisio troseddol neu fod yn rhan o gang troseddol. Maent yn defnyddio tactegau amrywiol er mwyn denu a chymryd mantais o blant a phobl ifanc, er enghraifft llwgrwobrywo gyda gwobrau, cyfeillio, eu bwgwth a'u gorfodi. Gweler Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan - Diogelu Plant Rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CCE).

https://www.safeguarding.wales/chi/c6/c6.p1.html

- **VAWDASV** - Gweler Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan- Diogelu Plant sydd wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig a Chanllaw Ymarferol ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol.

Nid yw ein hysgol ni yn goddef unrhyw fater yn ymwneud â VAWDASV ac rydym yn dilyn y protocol yn hyn o beth. O fewn yr ysgol, bydd unrhyw un, boed yn blentyn, rhiant neu aelod o staff, sydd o bosibl yn cael eu cam-drin yn derbyn cefnogaeth briodol i wneud penderfyniadau doeth ac atal plant a phobl ifanc rhag bod yn agored i'r math hwn o gamdriniaeth a sicrhau bod staff a theuluoedd yn cael eu diogelu cyhyd ag sy'n bosibl.

Mae'r holl staff wedi cwblhau'r modiwl HWB priodol.

- **Priodas dan Orfod**

Mae Llywodraeth y DU yn disgrifio hyn fel cymryd rhywun, dramor fel arfer, i'w gorfodi i briodi (os yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio) neu briodi rhywun sydd heb y gallu meddyliol i ganiatáu'r briodas (gall gorfodaeth gynnwys pwysau corfforol, seicolegol, ariannol, rhywiol ac emosiynol). Gall hefyd olygu trais a cham-drin corfforol neu rywiol. Fodd bynnag mae'r dewis o ran derbyn y trefniadau ai peidio yn aros gyda'r darpar ŵr a'r wraig. Gall plant fod wedi priodi yn ifanc iawn ac yn llawer iau na'r oedran cydsynio. Dylai'r holl staff fod yn arbennig o effro i amheuon neu bryderon a godir gan ddisgybl. Ers Mehefin 2014 mae

gorfodi rhywun i briodi wedi bod yn drosedd yng Nghymru a Lloegr o dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

Os oes gan yr ysgol bryder ynglŷn â phlentyn y gallai hyn fod yn berthnasol iddynt, cysylltir â'r asiantau perthnasol yn syth i gael arweiniad a chyngor.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Merched (AOCM)**

Mae'r Ddeddf Trosedd Difrifol 2015 yn cyflwyno dyletswydd adrodd orfodol sy'n nodi'r angen i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol rheoledig ac athrawon yng Nghymru a Lloegr i ddweud wrth yr heddlu ynghylch achosion 'hysbys' o AOCM mewn rhai dan 18 oed y maent yn eu hadnabod yn eu gwaith proffesiynol. Mae Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn berthnasol i achosion sy'n dod o dan ddyletswydd adrodd AOCM. Mae AOCM yn anghyfreithlon yn y DU.

Mae AOCM yn drefn ble mae organau cenhedlu merched yn cael eu hanafu neu eu newid ac nid oes unrhyw reswm meddygol dros hyn. Yn aml mae'n weithred hynod o drawmatig a threisgar i'r dioddefwr a gall achosi niwed mewn sawl ffordd. Gall yr ymarfer achosi poen difrifol a gall fod effeithiau iechyd yn syth a/neu hir dymor, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, anawsterau wrth eni plentyn, gan achosi perygl i'r plentyn a'r fam a/neu farwolaeth.

Mae AOCM yn norm cymdeithasol a wreiddiwyd yn ddwfn, sy'n cael ei ymarfer gan deuluoedd am amrywiaeth o resymau cymhleth. Yn aml fe'i hystyrir yn hanfodol i ferch ddod yn ddynes go iawn ac i fod yn briodadwy. Nid yw'r ymarfer yn ofynnol gan unrhyw grefydd. Mae AOCM yn ymarfer annerbyniol ac nid oes unrhyw gyfiawnhad drosto. Mae'n fath o gam-drin plant ac yn ffurf o drais yn erbyn merched.

- Camdrin mewn cyd-destun traddodiad, diwylliant, crefydd, ofergoeliaeth, plentyn sy'n ceisio lloches ar ei ben ei hun – Gweler Canllawiau Diogelu Cymru Gyfan ynglŷn â hyn.

- Masnachu mewn Plant – Gweler Canllawiau Diogelu Plant Cymru Gyfan os oes pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol

- Ymddygiad Rhywiol Niweidiol- Gweler Canllawiau Diogelu Plant Cymru Gyfan os oes pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol.

**• Cam-drin Cyfoed i Gyfoed**

Dylai **holl** staff fod yn ymwybodol y gall materion diogelu amlygu eu hunain trwy gam-drin cyfoed i gyfoed. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ac yn amlochrog. Deallwn ein bod angen systemau a gweithdrefnau clir mewn lle i adnabod a dweud ynghylch digwyddiadau neu bryderon. Anelwn i leihau'r ymddygiad hwn ac unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig gyda disgwyliad i ddileu'r ymddygiad hwn yn yr ysgol.

Mae cam-drin cyfoed i gyfoed yn bryder diogelu a bydd angen trafodaeth gyda'r arweinydd diogelu dynodedig a fydd yn ceisio cyngor gan asiantau a gweithwyr proffesiynol gan gynnwys cyfeirio at y gweithdrefnau diogelu. I ddechrau bydd hyn yn golygu cael sgwrs gydag asiantau perthnasol, e.e. yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae cam-drin cyfoed i gyfoed yn fwyaf tebygol o gynnwys, ond efallai na fydd yn gyfyngedig i:

- iaith sy'n fychanol, diraddiol, ymfflamychol;
- bwlio, gan gynnwys seiberfwlio;
- trais yn seiliedig ar ryw
- ymosodiadau ac aflonyddu rhywiol
- secstio

Rydym yn gweithio'n galed fel ysgol i fod yn rhagweithiol ac i herio'r math hwn o gam-drin. Anelwn i ddefnyddio dulliau yn y cwricwlwm i ymdrin a mynd i'r afael â cham drin cyfoed i gyfoed.

- **Cam-drin Ar-lein - G**weler Canllawiau Cymru Gyfan ar ddiogelu plant rhag camdrin ar-lein / **Modiwl Hyfforddiant Aflonyddu Rhywiol Ar-lein i holl staff ysgol** os yw eich staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn gallwch ei ychwanegu at eich polisi.

Cam-drin Ar-lein yw unrhyw fath o gamdriniaeth sy'n digwydd ar y we trwy gyfrwng technoleg fel cyfrifiaduron, llechi, ffonau symudol neu ddyfeisiadau gyda'r we. Gall ddigwydd mewn unrhyw fath o gyfathrebiad digidol er enghraifft:

- Rhwydweithiau cymdeithasol
- Negeseuon testun ac apiau negeseuon
- E-bost a negeseuon preifat
- Sgwrs ar-lein
- Sylwadau ar safleoedd ffrydio byw
- Sgyrsiau byw mewn gemau

Gall plant a phobl ifanc ddioddef eto ac eto pan fo cynnwys camdriniol yn cael ei recordio, ei uwchlwytho neu ei rannu gan eraill ar-lein. Gall hyn ddigwydd os yw'r gamdriniaeth wedi digwydd ar-lein neu oddi-ar-lein. Gall plant neu bobl ifanc ddioddef sawl math o gamdrin ar y we:

- Bwlio / seiberfwlio
- Camdrin emosiynol (gan gynnwys llwgrwobrwyo emosiynol er enghraifft disgwyl i blant neu bobl ifanc ymddwyn yn rhywiol trwy dechnoleg).
- Secstio (rhoi pwysau neu gymhelliad i greu delweddau rhywiol)
- Camdrin rhywiol
- Camfanteisio'n rhywiol

Gall plant a phobl ifanc gael eu denu at berthynas amhriodol ar-lein. Bydd y troseddwyr yn defnyddio platfformau ar-lein i feithrin perthynas ymddiriedol gyda'r plenty er mwyn eu cam-drin. Gall hyn ddigwydd ar-lein neu gall y troseddwr drefnu i gyfarfod y plentyn wyneb yn wyneb gyda'r bwriad o'u cam-drin.

- **Delweddau Rhywiol a Gynhyrchwyd gan Ieuenctid (Secstio) - a elwir bellach yn rhannu delweddau noeth**

Mae rhannu delweddau wedi bod yn beth cyffredin gyda rhwyddineb technoleg fodern. Gellir rhannu lluniau a fideos yn syml iawn trwy negeseuon testun, e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu yn gynyddol trwy apiau negeseuon symudol, megis Snapchat, WhatsApp neu Facebook Messenger.

Mae'r cynnydd hwn yng nghyflymder a rhwyddineb rhannu delweddau wedi codi pryderon ynghylch pobl ifanc yn cynhyrchu a rhannu delweddau rhywiol o'u hunain. Gall hyn eu gwneud yn agored i risgiau, yn arbennig os rhennir y delweddau ymhellach, gan gynnwys embaras, bwlio a chynnydd yn y posibilrwydd o gael eu hecsbloetio'n rhywiol. Yn bwysig, mae cynhyrchu a rhannu delweddau rhywiol o rai dan 18 oed yn anghyfreithlon.

Cynhyrchwyd canllawiau i gefnogi ysgolion, colegau a lleoliadau addysgol eraill i ddatblygu gweithdrefnau i ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â delweddau a gynhyrchir gan ieuenctid. Mae hefyd yn cyfeirio at ffynonellau o adnoddau a chefnogaeth. Mae'r cyngor hwn yn anstatudol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a bydd ein hysgol yn dilyn y canllawiau hyn wrth ymateb i ddigwyddiadau o'r natur hwn. (Mae gan yr ALI bolisi enghreifftiol os oes angen)

**Hyfforddiant ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch i staff ysgolion -** Mae'r modiwl hyfforddiant seiberddiogelwch hwn a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Cenedlaethol wedi'i lunio i gefnogi staff ysgolion i helpu i wella lefelau seiberddiogelwch eu hysgol.
Gallwch ychwanegu hwn at eich polisi os yw eich staff wedi'i gwblhau.

- **Bwlio**

Mae'n rhaid i bob ysgol gael polisi bwlio ar wahân ac roedd hwn yn un o'r prif newidiadau yng Nghanllawiau Gwrthfwlio newydd Llywodraeth Cymru 2019. Dylai hwn gael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

Mae dogfennau canllawiau statudol ac ymgynghorol yn darparu gwybodaeth i bawb sy'n gysylltiedig ag atal a herio bwlio mewn ysgolion. Gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae pob dogfen yn y gyfres yn darparu cyngor wedi'i deilwra'n arbennig i gynulleidfaoedd allweddol gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, Ysgolion, y Rhieni a Gofalwyr, Plant a Phobl Ifanc.

- **Ymyrraeth Gorfforol**

Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol yn y polisi rheoli ymddygiad (dogfen ar wahân) ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu.

- **Plant yn Colli Addysg - Gweler Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant sydd yn mynd ar goll o'r cartref neu o ofal.**

Cedwir golwg agos ar bresenoldeb, absenoldeb a gwaharddiadau. Mae plentyn yn mynd ar goll o addysg yn ddangosydd posib o gam-drin ac esgeulustod, yn cynnwys cam-drin rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol. Bydd yr uwch unigolyn dynodedig yn monitro absenoldeb ac yn cymryd camau priodol gan gynnwys hysbysu'r awdurdod lleol a dilyn gweithdrefnau lleol, yn arbennig pan fo plant yn mynd ar goll yn aml a/neu ar goll am gyfnodau yn ystod y diwrnod ysgol.

- **Addysg Ddewisol yn y Cartref - gweler Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan - Diogelu plant sydd yn cael eu haddysg gartref.**

Pan fo'n briodol byddwn yn cynghori'r Awdurdod Lleol pan fydd plant yn gadael ein hysgol i gael eu haddysgu yn y cartref cyn gynted â phosib trwy'r ffurflen gywir.

- **Gofalwyr Ifanc**

Fel ysgol rydym yn cydnabod anghenion gofalwyr ifanc gan y gallant fod yn fwy diamddiffyn neu mewn risg. Anelwn i allu adnabod gofalwyr ifanc a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i helpu i gyrraedd eu potensial gyda dealltwriaeth y bydd angen i staff a gwirfoddolwyr o bosib gyfeirio at wasanaethau cymorth cynnar i gael asesiad o'u hanghenion.

**• Maethu Preifat**

Trefniant maethu preifat yw pan ofalir am blentyn am 28 diwrnod yn olynol neu fwy gan rywun nad ydynt yn aelod o deulu agos y plentyn. Mewn achos o'r fath dylid hysbysu'r awdurdod lleol. Os yw'r ysgol yn ymwybodol o drefniant o'r fath rhaid iddynt ddweud wrth y teulu bod gan yr ysgol gyfrifoldeb i hysbysu'r awdurdod lleol ac annog y teulu i ddweud wrth yr awdurdod lleol eu hunain. Bydd cyngor / atgyfeiriad yn (gallu) cael ei ddarparu i'r asiantau perthnasol pan fo'n briodol.

**• Plant sy'n Derbyn Gofal**

Y rheswm mwyaf cyffredin i blant ddod yn rhai dan ofal yw o ganlyniad i gam-drin a/neu esgeulustod. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gadw plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel. Mae gan ein hysgol unigolyn Plant sy'n Derbyn Gofal dynodedig. Bydd yr arweinydd dynodedig hwn yn sicrhau bod gan staff priodol yr wybodaeth maent ei hangen mewn perthynas â statws cyfreithiol plentyn sy'n derbyn gofal (os ydynt yn derbyn gofal o dan drefniadau gwirfoddol gyda chaniatâd y rhieni neu ar orchymyn gofal interim neu llawn) a threfniadau cyswllt gyda rhieni geni neu rai sydd â chyfrifoldeb rhieni. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt wybodaeth am drefniadau gofal y plentyn a'r lefelau o awdurdod a ddirprwywyd i'r gofalwr gan yr awdurdod lleol sy'n gofalu amdanynt. Bydd gan yr arweinydd plant sy'n derbyn gofal dynodedig fanylion gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Byddant wedi llunio cynllun addysg unigol a bydd yr arweinydd Plant sy'n Derbyn Gofal dynodedig yn mynychu hyfforddiant rheolaidd os oes plant dan ofal yn yr ysgol ai peidio.

**Arwyddwyd………………………………(Llywodraethwr Cyfrifol) Dyddiedig………………………..**

**Arwyddwyd……………………………… (Pennaeth) Dyddiedig …………………………………….**

**Arwyddwyd……………………………… (Dirprwy)……………………………………………………….**

**ATODIAD 1 - Arwyddion o Gam-drin**

Ni fwriedir i'r diffiniadau a'r dangosyddion hyn fod yn rhestr gyflawn, ond yn hytrach eu bwriad yw bod yn ganllaw i'ch cynorthwyo. Mae'n bwysig hefyd cofio y gall llawer o blant arddangos rhai o'r dangosyddion hyn ar ryw adeg neu'i gilydd, ac na ddylid ystyried presenoldeb un neu ragor ohonynt fel prawf bod cam-drin yn digwydd. Gall fod rhesymau eraill dros newid mewn ymddygiad megis profedigaeth neu eni babi newydd i'r teulu neu dor-perthynas rhwng rhieni/gofalwyr. Wrth asesu a yw dangosyddion yn gysylltiedig â cham-drin ai peidio, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol wastad eisiau eu deall mewn perthynas â datblygiad y plentyn a'r cyd-destun.

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ffurfiau o gam-drin plentyn. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn naill ai'n uniongyrchol trwy achosi niwed, neu'n anuniongyrchol, drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plentyn ddioddef camdriniaeth mewn amgylchedd teulu neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol; gan bobl y maen nhw'n eu hadnabod; neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn. Efallai y cânt eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu gan blentyn arall neu blant eraill.
Ceir pedwar math o gam-drin plant. Cânt eu diffinio yn Nhrefniadau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Diogelu Plant*: *Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* fel a ganlyn:

**Cam-drin corfforol**

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau salwch mewn plentyn, neu'n eu cymell yn fwriadol.

**Gall arwyddion o gam-drin corfforol gynnwys:**

- cleisio, marciau neu anafiadau ar unrhyw ran o'r corff na ellir eu hesbonio
- nifer o gleisiau - mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich a'r tu allan i'r glun
- llosgiadau sigarét
- marciau brathu dynol
- esgyrn wedi torri
- sgaldio, gyda marciau tasgu'n mynd at i fyny
- nifer o losgiadau gydag ymyl wedi'i ddiffinio'n glir.

D.S. Bydd rhan fwyaf o blant yn cael toriadau a chleisiau wrth fyw bywyd bob dydd. Dylid dehongli anafiadau bob amser yng ngoleuni hanes meddygol a chymdeithasol y plentyn, ym mha gam datblygiadol y maent ac yng nghyd-destun yr esboniad a roddwyd. Mae'r rhan fwyaf o gleisiau damweiniol i'w gweld dros rannau esgyrnog y corff, e.e. pen-gliniau, penelinoedd, crimogau, ac yn aml ar flaen y corff. Dangosyddion pwysig o gam-drin corfforol yw cleisiau neu anafiadau sydd naill ai heb eu hesbonio neu sy'n anghyson â'r esboniad a roddwyd, neu sy'n weladwy ar rannau 'meddal' y corff lle bo anafiadau damweiniol yn annhebygol, e.e. bochau, abdomen, y cefn a'r pen ôl.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad hefyd fod yn arwydd o gam-drin corfforol:**

- bod ofn i rywun ofyn i'r rhieni am esboniad
- ymddygiad ymosodol neu byliau difrifol o dymer
- cilio pan fo rhywun yn agosáu neu'n eu cyffwrdd
- amharodrwydd i dynnu dillad oddi amdanynt, er enghraifft mewn tywydd poeth
- iselder neu ymddygiad tawedog
- rhedeg oddi cartref

**Cam-drin Emosiynol**

Cam-drin emosiynol yw mynd ati i gam-drin plentyn yn barhaus yn emosiynol nes achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plant eu bod yn ddiwerth a bod neb yn eu caru, eu bod yn annigonol, neu yn cael eu gwerthfawrogi yn unig i'r graddau eu bod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau datblygiadol amhriodol ar blant. Gall gynnwys peri plant i deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml (h.y. byw mewn amgylchedd ble mae cam-drin domestig) neu gam-fanteisio ar neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ynghlwm ym mhob math o gam-drin plentyn, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o gam-drin emosiynol gynnwys:**

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troelli gwallt, siglo
- methu â chwarae
- bod ofn gwneud camgymeriadau
- nam lleferydd sydyn
- hunan-niweidio
- bod ofn i rywun fynd at riant ynghylch eu hymddygiad
- oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

**Cam-drin Rhywiol**

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu unigolyn ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, nad yw o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgarwch gynnwys cyffwrdd corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgarwch di-gyffwrdd, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgarwch rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol, neu baratoi plentyn i bwrpas rhyw i'w gam-drin (gan gynnwys drwy gyfrwng y rhyngrwyd) a thrwy Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

**Gall arwyddion cam-drin rhywiol gynnwys:**

- poen neu gosi o gwmpas yr organau rhywiol
- cleisio neu waedu o gwmpas yr organau rhywiol
- clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- rhedlif neu haint gweiniol
- poenau stumog wrth gerdded neu eistedd
- Beichiogrwydd

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o gam-drin rhywiol gynnwys:**

- newidiadau sydyn neu anesboniadwy mewn ymddygiad e.e. troi'n ymosodol neu'n dawedog
- bod ofn cael eu gadael gydag unigolyn neu grŵp penodol o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg oddi cartref
- gwybodaeth rywiol y tu hwnt i'w hoed, neu eu lefel ddatblygiadol
- lluniau neu iaith rywiol
- gwlychu'r gwely
- problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niwed neu anffurfio, sydd weithiau'n arwain at roi cynnig ar hunanladdiad
- dweud bod ganddynt gyfrinachau na allant eu dweud wrth unrhyw un
- cam-drin sylweddau
- bod â ffynonellau o arian yn fwyaf sydyn heb esboniad
- ddim yn cael bod â ffrindiau (yn enwedig yn ystod glaslencyndod)
- ymddwyn mewn modd rhywiol tuag at oedolion

**Esgeulustod - gweler Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant rhag esgeulustod**

Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr sy'n methu â darparu digon o fwyd, cysgod a dillad, sy'n methu ag amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu fethiant i sicrhau mynediad at ofal

meddygol neu driniaeth briodol . Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn.

**Gall arwyddion corfforol esgeulustod gynnwys:**

- eisiau bwyd yn gyson, weithiau'n dwyn bwyd oddi ar blant eraill
- yn fudr neu'n 'drewi' o hyd
- colli pwysau, neu o dan bwysau'n gyson
- dillad anaddas ar gyfer y tywydd.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad sy'n arwyddion o esgeulustod gynnwys:**

- cwyno eu bod wedi blino trwy'r amser
- peidio â gofyn am gymorth meddygol ac/neu yn methu â mynychu apwyntiadau
- dim llawer o ffrindiau
- crybwyll cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu heb eu goruchwylio

**Yn ogystal â'r mathau o gam-drin a nodwyd uchod, bydd aelodau o staff hefyd yn edrych am faterion diogelu eraill YN UNOL Â'R POLISI HWN.**

**Gellir ychwanegu unrhyw bolisi arall a deimlir sy'n briodol at hwn fel bo angen, efallai y byddwch eisiau cynnwys rhywbeth ar:**

- **Contractwyr**
- **Disgyblion Diamddiffyn**
- **Diogelwch yn yr Ysgol**
- **Cwricwlwm**
- **Ysgolion Iach – perthnasau, cydraddoldeb, rhyw, iechyd a diogelwch disgyblion**
- **Rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia**
- **Presenoldeb**
- **Gweithio mewn Partneriaeth gyda Rhieni**
- **Rôl y Corff Llywodraethu**
- **Cwynion**
- **Polisi Diogelu Corfforaethol Conwy**
- **Parch a Gwydnwch; Datblygu cydlyniant cymunedol**

<u>Monitro a Gwerthuso</u>

**-Hefyd bydd angen i chi sicrhau fod yr Adnodd Archwilio Diogelu yn cael ei gwblhau bob blwyddyn gyda chynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw feysydd heb eu datrys.**

**-Dylai copi o siart lif amddiffyn plant fod yn weledol i bawb o amgylch yr ysgol**

**-Dylid arddangos lluniau o'r uwch unigolion dynodedig**

**-Dylai rhifau cyswllt fod ar gael yn rhwydd i bawb.**